

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i fynd ati i astudio pwnc mathemategol am gyfnod estynedig yn annibynnol, dan arweiniad. Caiff eu hastudiaethau eu harwain drwy ddefnyddio deunyddiau perthnasol megis nodiadau modiwl, llyfrau ac erthyglau ymchwil, a ddarperir. Caiff eu perfformiad ei fonitro a'i asesu drwy dri aseiniad a gaiff eu marcio gan diwtoriaid, a'r olaf o'r rhain fydd y traethawd hir ei hun. I gael manylion am bynciau traethawd hir cyfredol, gweler y disgrifiad o fodiwl M840.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd anrhydedd dda mewn mathemateg neu bwnc tebyg, ynghyd â thystiolaeth o astudiaethau ôl-raddedig llwyddiannus ym maes mathemateg
- tystiolaeth o astudiaethau ôl-raddedig llwyddiannus ym maes mathemateg sy'n gysylltiedig â'r pwnc traethawd hir dan sylw.
- y gallu i gyflwyno mathemateg yn electronig
- y parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - Gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
 - meddalwedd tiwtorialau ar-lein y Brifysgol (rhoddir hyfforddiant) i gyfathrebu â myfyrwyr lle y bo'n gymwys
 - marcio aseiniadau myfyrwyr a gyflwynir yn electronig (ar ffurf PDF) ar y sgrin (eTMA), gan gynnwys y traethawd hir (system TMA ar-lein). Efallai y bydd gofyn i chi farcio aseiniadau papur.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- PhD mewn maes perthnasol
- profiad o addysgu ac arholi, yn enwedig ym maes addysg o bell neu ar lefel ôl-raddedig
- profiad o oruchwylio traethodau hir mathemategol

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	8
Band cyflog:	2
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	2.5

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw'n berthnasol.